**Cardiff University Students' Union**
**Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd**

# CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL
## Aelodau Myfyrwyr
## Undeb y Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd
## DYDD IAU 22ain TACHWEDD, 2018
## 18:00, Y NEUADD FAWR, UNDEB Y MYFYRWYR

## Agenda

1. Croeso
2. Cofnodion o CCB 2017 (T2)
3. Adroddiad Blynyddol 17/18 (T7)
4. Adroddiad Ariannol 17/18 (T8)
5. Ymlyniadau (T14)
6. Cwestiynau agored i'r Ymddiriedolwyr
7. Adolygiad o Femorandwm ac Erthyglau y Gymdeithas

   i) Eitemau a gyflwynwyd i Undeb y Myfyrwyr (T15)

8. Cynigion i'w trafod

   A) Polisïau'n dod i Ben

   I) Hyfforddiant iechyd meddwl gorfodol i diwtoriaid personol (T20)

   B) Cynigion a Gyflwynwyd

   i) Brwydro am gronfeydd: Parhau i gyllido mentrau sy'n mynd i'r afael â ymosodiadau rhywiol a thrais ar fyfyrwyr(T23)
   ii) Ymgyrch Gwrth Slafdai (T27)
   iii) Gwneud Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn Gyflogwr Cyflog Byw (T28)
   iv) Swyddog Y Gymraeg (T30)
   v) Amddiffyn ein myfyrwyr Palesteinaidd ac Iddewig (T32)

9. Hysbysiad o Etholiadau (T33)
10. Unrhyw Fusnes Arall

EITEM DAU

# Aelodau Myfyrwyr
# CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL
# Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd
# DYDD IAU 23AIN TACHWEDD 2017
# 18:00, Y NEUADD FAWR, UNDEB Y MYFYRWYR

| | |
|---|---|
| 1. | Croeso<br><br>Croesawodd Aditi Gupta (Cadeirydd) bawb i'r cyfarfod. |
| 2. | Cofnodion o CCB 2016<br><br>Cadarnhawyd cofnodion CCB 2016 fel cofnod cywir a chymeradwywyd nhw. |
| 3. | Polisïau'n dod i Ben<br><br>Mae'r polisïau a basiwyd ar y 27ain Tachwedd 2014 nawr yn darfod:<br>Gefeillio Prifysgol Palestina<br>Cydnabod Gwladwriaeth Palestina<br>Gwella Cynrychiolaeth Ôl-raddedig<br>Ailstrwythuro Cyfryngau Myfyrwyr |
| 4. | Adroddiad Blynyddol 16/17<br><br>Cyflwynodd Hollie Cooke ddatblygiadau a llwyddiannau arwyddocaol o'r Adroddiad Blynyddol 16/17 ac esboniodd y gellid gweld uchafbwyntiau ar wefan Undeb y Myfyrwyr. |
| 5. | Adroddiad Ariannol 16/17<br><br>Cyflwynodd Daniel Palmer Adroddiad Cyllidol 16/17 yn cynnwys Datganiad o Weithgareddau Ariannol, Mantolen yr Elusen a'r Datganiad yr Elusen o'r Llif Arian. Rhoddodd drosolwg o gyfrifon a strwythur gweithredol Undeb y Myfyrwyr.<br><br>Esboniodd DP fod bob gwybodaeth a manylion ychwanegol ar gael ar wefan Undeb y Myfyrwyr. |
| 6. | Ymlyniadau<br><br>Esboniodd AG fod ymlyniadau Undeb y Myfyrwyr yn cynnwys: |



Home of the Student Voice
Cartref Llais Y Myfyrwyr

| | |
|---|---|
| | Ffi Ymlyniad UCM - £35,093.40<br>Ffi Ymlyniad BUCS - £17,082.55<br><br>*Cymeradwywyd yr ymlyniadau* |
| 7. | <u>Cwestiynau agored i'r Ymddiriedolwyr</u><br><br>Gofynnodd David ar gyfer beth fyddai'r adeilad newydd o flaen yr Undeb.<br>Esboniodd HC y byddai'r adeilad yn Ganolfan Bywyd Myfyrwyr ac yn gartref i ddarlithfa, y wasanaeth gyrfaoedd a gwasanaethau cefnogi myfyrwyr. Fe fydd yn agor yn 2020.<br><br>Gofynnodd Vaishnavi pam nad oes llawer y cael ei wneud dros fyfyrwyr rhyngwladol.<br>Esboniodd HC y gweithiwyd ar y system gwarantwr a bod myfyrwyr y Gymanwlad yn cael eu cwmpasu yn y cymhelliant cofrestru pleidleiswyr. Esboniodd fod myfyrwyr rhyngwladol yn cael eu cymryd o ddifrif.<br><br>Gofynnodd Ben o ble ddaw'r cyllid ar gyfer y cynllun cerdded diogel.<br>Esboniodd HC eu bod mewn partneriaeth gyda'r heddlu ac mae cerbydau'r heddlu am ddim.<br><br>Gwnaeth Zac sylw fod llawer o blant ysgolion uwchradd yn defnyddio cyfleusterau'r Undeb ac nid oes staff diogelwch yno i wirio eu cardiau adnabod.<br>Rhoddodd Nick Fox ddiolch i Zac am godi'r achos hwn ac esboniodd fod staff diogelwch yn gwneud hap wiriadau ar gyfer myfyrwyr.<br><br>Gofynnodd Siaradwr anhysbys pam fod rhaid i gynigion ddarfod.<br>Esboniodd HC ei fod yn rhan o gyfansoddiad yr Undeb ond gall fyfyrwyr gyflwyno cynigion i'r Senedd i atal polisïau rhag darfod.<br><br>Gofynnodd Amy os oedd unrhyw beth yn cael ei wneud i gyrtiau pêl-rwyd Talybont ar gyfer chwaraeon gemau mewn golegol ac esboniodd fod llawer o anafiadau oherwydd fod angen gosod arwynebedd newydd.<br>Esboniodd Thomas Kelly fod y brifysgol ar hyn o bryd yng nghanol cyfnod o fuddsoddi hir-dymor mewn cyfleusterau chwaraeon.<br><br>GWEITHRED- TK i ddarparu gwybodaeth wedi'r CCB.<br><br>Gofynnodd Harry cyhoeddwyd cyllidebau a haenau'r Undeb Athletaidd mor hwyr eleni.<br>Esboniodd TK ei fod yn cymryd llawer o amser i drefnu ceisiadau am grant a bod 250 a mwy angen cael eu prosesu, ond ceisir gwella hyn flwyddyn nesaf.<br><br>Gofynnodd Cameron os oedd unrhyw beth arall y gall yr Undeb ei wneud i fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghaerdydd.<br>Esboniodd Lamorna Hooker fod prosiectau yn eu lle a chymdeithas newydd o'r enw 'Helpu'r Digartref' y gellir ymuno â. Fel elusen nid amcanion yr Undeb yw i gynorthwyo'r digartref yn uniongyrchol, ond gall helpu myfyrwyr i'w helpu nhw.<br><br>Gofynnodd Ben os gellid gostwng pris VKs<br>Esboniodd HC fod elw o werthu alcohol yn helpu i ariannu gwasanaethau arall yr Undeb, e.e lles a gwirfoddoli. |
| 8. | <u>Cynigion a Gyflwynwyd</u> |



Home of the Student Voice
Cartref Llais Y Myfyrwyr

| | |
|---|---|
| 8.I. | Myfyrwyr Mwslimaidd i gael eu cynrychioli'n well gan Undeb y Myfyrwyr.<br><br>Cynigydd: Ameen<br>Eiliwyd gan: Hamza Saleem, Umair Asim, Ishmam Omar<br><br>Siaradodd Ameen dros y cynnig ac esbonio fod Dydd Gwener rhwng 1-2yh yn awr o weddïo gorfodol i Fwslimiaid ac nid yw'n cael ei ddiogelu gan lawer o ysgolion. Mae'n ddyletswydd ar yr Undeb i lobio'r Brifysgol i ddiogelu'r awr hon. Mae Mwslimiaid hefyd yn gweddïo 5 gwaith y diwrnod ac mae disgwyl iddynt ymgymryd â phuredigaeth ond nid yw'r cyfleusterau puredigaeth yr Undeb yn ddigonol. Mae ystafell aml grefydd ar gael ond nid yw'n ofod addas. Mae Mwslimiaid hefyd yn defnyddio dŵr yn ogystal â papur tŷ bach er mwyn golchi ar ôl y tŷ bach ac mae'n rhaid iddynt gario boteli dŵr gan nad oes cyfleusterau i gefnogi hyn.<br><br>Siaradodd Avela yn erbyn y cynnig ac esboniodd fod Shabbat hefyd yn fater pwysig i fyfyrwyr Iddewig na ddylai weithio wedi 3yh ar Ddydd Gwener. Dylai myfyrwyr Iddewig hefyd gael eu cefnogi gan yr Undeb.<br><br>Siaradodd Hanin dros y cynnig ac esboniodd bod angen difrïol i fyfyrwyr Mwslimaidd gael cyfleusterau gwell ac byddai yn cefnogi cynnig i fyfyrwyr Iddewig hefyd yn y dyfodol.<br><br>Siaradodd Siaradwr anhysbys yn erbyn y cynnig ac esboniodd na ddylai'r Brifysgol ffafrio un crefydd dros grefydd arall gan fod rhaid i Hindŵiaid wneud aberth ar gyfer dathliadau crefyddol penodol ac na fyddent yn disgwyl i eraill orfod newid eu hamserlenni oherwydd hyn.<br><br>*Cynnig yn pasio.*<br><br><br><u>Gwneud Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn gyflogwr cyflog byw</u> |
| 8.II. | Cynigydd: Iain Cook<br>Eiliwyd gan: Elly Owen<br><br>Siaradodd Iain dros y cynnig ac esboniodd fod gan yr Undeb gyfleusterau a gwasanaethau gwych ond fod staff yn gweithio'n galed ac yn haeddu cyflog byw. Prifysgol Caerdydd yw'r unig Brifysgol yng Nghymru i dalu'r cyflog byw gwirioneddol ac fe ddylai'r Undeb ddilyn hyn. Mae 16 Undeb Myfyrwyr yn y DU yn talu'r cyflog hwn, ac mae'n mynd lawlaw â gwella enw da corfforaethol ac fe fydd yn ehangu bywydau staff sy'n fyfyrwyr yn gweithio i'r Undeb.<br><br>Siaradodd HC yn erbyn y cynnig ac esbonio fod yr Undeb yn elusen felly fod pob elw yn mynd yn ôl i'r gwasanaeth a byddai'r cynnig hwn yn costio £290,000. Mae dewis ar beth dylid gwario arian, mae'r opsiynau yn cynnwys cynyddu costau clwb a chanolfannau bwyd, torri costau gwasanaethau eraill neu gael gwared o rai gwasanaethau masnachol (llys bwyd ayyb). Methu cymharu ag Undebau eraill gan mai dim ond 75 aelod o staff sydd ganddynt ar gyfartaledd.<br><br>Siaradodd Ellie dros y cynnig ac esboniodd fod Cyngor Caerdydd yn arwain y ffordd a bod Prifysgol Caerdydd yn dilyn yr arweiniad hwn. Nid yw'r Undeb yn darparu diogelwch undeb llafur fel staff y Brifysgol felly dyma gyfle y myfyrwyr i gael rhoi eu barn.<br><br>Siaradodd Geoff yn erbyn y cynnig ac esboniodd nad yw staff yn cael eu gorweithio nac yn cael cyflog |

| | |
|---|---|
| | rhy isel. Os fydd y cynnig hwn yn pasio bydd sgil effeithiau, megis prisiau uwch, colli staff (a fyddai'n achosi gorweithio) a dylanwadu ar wasanaethau gwych a fyddai'n dioddef oherwydd.<br><br>*Cynnig yn methu.* |
| 8.III | <u>Ymgynghori â myfyrwyr ar bob haen: Sedd ar BGP</u><br><br>Cynigydd: Fadhila Al Dhahouri, IL Addysg<br>Eiliwyd gan: Jake Smith, IL Myfyrwyr Ôl-raddedig<br><br>Siaradodd Fadhila dros y cynnig ac esboniodd fod BGP yn dîm uwch reolaeth ac yn gyfrifol am gynlluniau gweithredol a chyllid Prifysgolion. Dylai myfyrwyr gael llais uniongyrchol yn y cyfarfod hwn achos ei fod dylanwadu'n uniongyrchol ar eu haddysg. Mae gan Brifysgolion eraill ddylanwad myfyrwyr ar eu BGP ac mae angen i leisiau myfyrwyr gael eu clywed ym mhob haen o'u Prifysgol.<br><br>*Dim siaradwr yn erbyn.*<br><br>Gofynnodd Aviela pwy fyddai'r cynrychiolydd myfyrwyr.<br>Atebodd FAD y byddai'n swyddog sabothol.<br><br>*Cynnig yn pasio.* |
| 8.IV | <u>Cymorth ariannol gwirioneddol i fyfyrwyr ôl-raddedig mewn angen</u><br><br>Cynigydd: Jake Smith, IL Myfyrwyr Ôl-raddedig<br>Eiliwyd gan: Fadhila Al Dhahouri, IL Addysg<br><br>Siaradodd Jake dros y cynnig ac esboniodd y bydd yn cefnogi myfyrwyr ÔR difreintiedig. Mae Prifysgol Caerdydd yn gweithredu cynllun bwrsariaethau i fyfyrwyr o gefndiroedd gyda incwm isel ond nid yw'n caniatáu myfyrwyr ÔR i gael mynediad tuag ato, beth bynnag eu cefndir ariannol. Mae ÔR o gefndiroedd incwm isel yn llai tebygol o ddechrau astudiaeth ÔR oherwydd goblygiadau ariannol. Mae Manceinion, Bangor, Caerfaddon a phrifysgolion eraill yn cefnogi'r myfyrwyr hyn.<br><br>*Dim siaradwr yn erbyn.*<br><br>*Cynnig yn pasio.* |
| 8.V | <u>Newidiadau i IL Cymdeithasau a IL Lles</u><br><br>Cynigydd: Nick Fox, IL Lles<br>Eiliwyd gan: Lamorna Hooker, IL Cymdeithasau<br><br>Siaradodd NF dros y cynnig ac esboniodd y byddai ychydig o newid rôl yr IL Lles i IL Lles ac Ymgyrchoedd gan nad yw gyfrifoldeb swyddogol ar unrhyw Swyddog Sabothol i gefnogi ymgyrchoedd ar hyn o bryd. Byddai hefyd yn newid IL Cymdeithasau i gynnwys gwirfoddoli a gweddnewid y rôl i IL Gweithgareddau. Mae gan gwirfoddoli ymgysylltiad mawr ond dim gorchwyl swyddog sabothol. Beirniadir perfformiad Swyddog Sabothol wrth eu maniffestos a byddai newid mewn enw yn helpu sicrhau fod gwirfoddoli yn cael ei gynnwys yn y gorchwyl gwaith. Ni chaiff effaith ar y gyllideb a bydd y |

| | |
|---|---|
| | newidiadau yn eu lle i'r tîm nesaf o swyddogion.<br><br>Cynigiodd TK welliant drwy newid yr enw i 'IL Cymdeithasau a Gwirfoddoli' ac esboniodd y gallai 'gweithgareddau' olygu goblygiadau i chwaraeon a'r cyfryngau ac y gallai achosi dryswch. Dylai Cyfryngau Myfyrwyr fod yn annibynnol yn olygyddol a gall IL Gweithgareddau ddylanwadu ar Gyfryngau Myfyrwyr.<br><br>*Gwelliant yn pasio.*<br><br>*Cynnig yn pasio.* |
| 9 | Hysbysiad o Etholiadau<br><br>Esboniodd AG fod enwebiadau ar gyfer y Swyddogion Sabothol a Swyddogion Ymgyrch ar gyfer 2018/19 yn agor ar y 24ain Tachwedd am 12:00. |
| 10 | Unrhyw Fusnes Arall<br><br>Doedd dim. |
| 11 | Cyfarfod nesaf y CCB<br><br>Dydd Iau 22ain Tachwedd 2018 |

# EITEM TRI

Bydd Llywydd Undeb y Myfyrwyr, Fadhila Al Dhahouri, yn cyflwyno negeseuon allweddol o'r adroddiad, datblygiadau arwyddocaol, llwyddiannau a newidiadau o fewn y sefydliadau ar gyfer blwyddyn academaidd 2017-18.

# EITEM PEDWAR

ADRODDIAD YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol gyda'i gilydd gyda datganiadau cyllid archwiliedig y grŵp a'r Undeb ar gyfer y flwyddyn 1 Awst 2017 i 31 Gorffennaf 2018. Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau fod Adroddiad Blynyddol a datganiadau cyllidol yr Undeb yn cydymffurfio gyda'r gofynion statudol presennol, gofynion dogfen llywodraethol yr Undeb a darpariaethau'r Datganiad o Ymarfer a Awgrymwyd (SORP), yn berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol a'r Safon Adrodd Ariannol yn ddilys yn y DU ac yng Ngweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (mewn grym 1 Ionawr 2015) gyda'r gwelliant gan Fwletin Diweddariad 1 (mewn grym 1 Ionawr 2015).

## Amcanion a Gweithgareddau

Amcanion yr Undeb yw datblygu addysg y myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd er budd y cyhoedd drwy:

- Hyrwyddo buddiannau a lles myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn ystod eu hastudiaeth a chynrychioli, cefnogi a chynghori myfyrwyr.
- Bod yn sianel gynrychiolaeth gydnabyddedig rhwng myfyrwyr a Phrifysgol Caerdydd ac unrhyw gyrff allanol eraill; a
- Darparu gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol, chwaraeon a hamdden yn ogystal â fforymau ar gyfer trafodaeth er mwyn datblygiad personol ein myfyrwyr.

Wrth lunio amcanion Gwirfoddoli Caerdydd ar gyfer y flwyddyn a chynllunio eu gweithgareddau, mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried canllawiau cyffredinol a pherthnasol atodol y Comisiwn Elusennau ar fudd y cyhoedd. Wrth fynd ar drywydd yr amcanion hyn er lles y cyhoedd, mae'r Undeb wedi sefydlu adrannau a gwasanaethau i'w defnyddio gan ei aelodau ac yn gweithio gyda'r Brifysgol a sefydliadau eraill ar ran myfyrwyr Prifysgol Caerdydd.

Mae'r Undeb yn gosod ei blaenoriaethau hirdymor yn ôl ei gynllun strategol, sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd ac yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd gyda myfyrwyr Prifysgol Caerdydd. Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried y cynllun strategol wrth osod amcanion blynyddol, a fynegir mewn cerdyn sgorio cytbwys a ddilynir gan Ymddiriedolwyr a staff yr Undeb. Ym mis Mai 2018 lansiodd yr Undeb eu cynllun strategol cyllidol ar gyfer 2018- 2021, gyda'r teitl 'Wrth Galon Profiad Myfyrwyr Caerdydd' a gellir ei ddarllen yma: https://www.cardiffstudents.com/about-cusu/plans.

## Adroddiad Ariannol

Cyfanswm incwm y Grŵp Elusen oedd £9,573,491 gyda chyfanswm gwariant o £9,311,448 yn ystod y flwyddyn. Arweiniodd hyn at gyfanswm yr incwm net o £262,043. Mae hyn yn cynnwys incwm grant cyfyngedig o £30,883 a gwariant o £9,087.

Ar 31 Gorffennaf 2018 cyfanswm y cronfeydd wrth gefn rhydd yr Undeb (h.y. cronfeydd anghyfyngedig heb ei gynrychioli gan asedau sefydlog) oedd £740,566 (31 Gorffennaf 2017: £-47,758) ac mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon fod gan yr Undeb sylfaen ariannol gadarn i fynd ar drywydd ei amcanion a'u gweithgareddau . Yn ychwanegol i hyn daliwyd £21,796 (31 Gorffennaf 2017: £0) mewn cronfeydd cyfyngedig.

Parhaodd is-gwmni'r Undeb, GUCC, i gynyddu eu hincwm yn 2018 gyda throsiant o £4,500,911 (31 Gorffennaf 2017: £3,975,803). Fe wnaeth y cwmni masnachu wneud elw ariannol gweithredol o £323,781 (31 Gorffennaf 2017: £123,574), ar ôl codi tâl dibrisiant o £683,211 (31 Gorffennaf 2017: £685,468), gyda £602,218 yn codi o ddibrisiant adeilad yr Undeb. Yn ystod y flwyddyn disgynnodd i £4,407,704 (31 Gorffennaf 2017: £4,427,963) wedi diffyg taliadau cyfraniadau gael eu gwneud i'r cynllun a datod y gostyngiad.
Mae'r diffyg ariannol yn codi o rwymedigaethau dyfodol y cwmni tuag at Gynllun Pensiwn Undeb y Myfyrwyr, a gafodd ei gau ar gyfer croniad dyfodol yn 2011. Mae'r Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwyr yn fodlon bod arian i fodloni rhwymedigaethau i'r gronfa gan eu bod yn ddyledus dros fywyd y cynllun adfer diffyg ariannol hyd at 2033.

## Polisi Cronfeydd Wrth Gefn:

Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu sefyllfa cronfeydd yr Undeb yn flynyddol ac yn gosod targedau ar gyfer lefelau cronfeydd wrth gefn yn unol ag anghenion y dyfodol os na fydd arian ar gael o'r ffynhonnell ariannu gweithredol. Mae polisi wrth gefn yr Undeb yn datgan y bydd yr Undeb yn cyllidebu i gyflawni gwarged o £250,000 o'u gweithgareddau cyfunol bob blwyddyn i ddatblygu cronfeydd rhydd anghyfyngedig o £1.3M erbyn 2023. Mae cronfeydd rhydd yn cael eu diffinio fel 'cyllid anghyfyngedig nad ydynt yn cael eu cynrychioli gan asedau sefydlog'.

Cyfanswm cronfeydd rhydd wrth gefn yr Elusen yw £175,683 (31 Gorffennaf 2017: £75,195) ac £740,566 (31 Gorffennaf 2017: £47,758) pan yn gyfunol.

## Busnes byw

Wedi gwneud ymholiadau addas, mae gan yr Ymddiriedolwyr ddisgwyliad rhesymol fod gan yr Undeb adnoddau digonol i barhau mewn bodolaeth gweithredol am y dyfodol rhagweladwy. Am y rheswm hwn maen nhw'n parhau i fabwysiadu'r sail busnes byw wrth baratoi datganiadau cyllid. Gellir dod o hyd i fanylion pellach yn ymwneud a mabwysiadu'r sail busnes byw yn y Polisïau Cyfrifeg.

# CONSOLIDATED STATEMENT OF FINANCIAL ACTIVITIES INCORPORATING INCOME AND EXPENDITURE ACCOUNT
***FOR THE YEAR ENDED 31 JULY 2018***

| | Note | Unrestricted funds 2018 £ | Restricted funds 2018 £ | Total funds 2018 £ | Total funds 2017 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Income from:** | | | | | |
| Donations and legacies | **2** | 2,925,000 | 30,883 | 2,955,883 | 2,806,000 |
| Charitable activities | **4** | 2,115,910 | - | 2,115,910 | 1,856,246 |
| Other trading activities | | 4,500,911 | - | 4,500,911 | 3,975,803 |
| Investments | **3** | 787 | - | 787 | 424 |
| **Total income** | | 9,542,608 | 30,883 | 9,573,491 | 8,638,473 |
| **Expenditure on:** | | | | | |
| Raising funds | | 6,064,629 | - | 6,064,629 | 7,657,086 |
| Charitable activities | **5** | 3,237,732 | 9,087 | 3,246,819 | 2,946,177 |
| **Total expenditure** | | 9,302,361 | 9,087 | 9,311,448 | 10,603,263 |
| **Net income / (expenditure)** | | 240,247 | 21,796 | 262,043 | (1,964,790) |
| **Net movement in funds** | | 240,247 | 21,796 | 262,043 | (1,964,790) |
| **Reconciliation of funds:** | | | | | |
| Total funds brought forward | | 8,519,492 | - | 8,519,492 | 10,484,282 |
| **Total funds carried forward** | | 8,759,739 | 21,796 | 8,781,535 | 8,519,492 |

**CONSOLIDATED BALANCE SHEET**
***AS AT 31 JULY 2018***

| | Note | £ | 2018 £ | £ | 2017 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Fixed assets** | | | | | |
| Tangible assets | **11** | | 12,426,877 | | 12,995,212 |
| Investments | **12** | | 73,563 | | 73,563 |
| | | | 12,500,440 | | 13,068,775 |
| **Current assets** | | | | | |
| Stocks | **13** | 39,936 | | 41,387 | |
| Debtors | **14** | 539,582 | | 441,917 | |
| Cash at bank and in hand | | 1,174,851 | | 469,186 | |
| | | 1,754,369 | | 952,490 | |
| **Creditors:** amounts falling due within one year | **15** | (1,065,570) | | (1,073,810) | |
| **Net current assets/(liabilities)** | | | 688,799 | | (121,320) |
| **Total assets less current liabilities** | | | 13,189,239 | | 12,947,455 |
| Provisions for Liabilities | **16** | | (4,407,704) | | (4,427,963) |
| **Net assets** | | | 8,781,535 | | 8,519,492 |
| **Charity Funds** | | | | | |
| Restricted funds | **17** | | 21,796 | | - |
| Unrestricted funds | **17** | | 8,759,739 | | 8,519,492 |
| **Total funds** | | | 8,781,535 | | 8,519,492 |



Home of the Student Voice
Cartref Llais Y Myfyrwyr

## UNION BALANCE SHEET
***AS AT 31 JULY 2018***

| | Note | £ | 2018 £ | £ | 2017 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Fixed assets** | | | | | |
| Tangible assets | **11** | | 35,207 | | 30,791 |
| Investments | **12** | | 2,000 | | 2,000 |
| | | | 37,207 | | 32,791 |
| **Current assets** | | | | | |
| Debtors | **14** | 402,357 | | 361,474 | |
| Cash at bank | | 228,268 | | 160,802 | |
| | | 630,625 | | 522,276 | |
| **Creditors:** amounts falling due within one year | **15** | (435,146) | | (449,081) | |
| **Net current assets** | | | 195,479 | | 73,195 |
| **Net assets** | | | 232,686 | | 105,986 |
| **Charity Funds** | | | | | |
| Restricted funds | | | 21,796 | | - |
| Unrestricted funds | | | 210,890 | | 105,986 |
| **Total funds** | | | 232,686 | | 105,986 |

## CONSOLIDATED STATEMENT OF CASH FLOWS
*FOR THE YEAR ENDED 31 JULY 2018*

| | Note | 2018<br>£ | 2017<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Cash flows from operating activities** | | | |
| Net cash provided by operating activities | **19** | 828,361 | 253,815 |
| **Cash flows from investing activities:** | | | |
| Dividends, interest and rents from investments | | 787 | 418 |
| Purchase of tangible fixed assets | | (123,483) | (52,789) |
| **Net cash used in investing activities** | | (122,696) | (52,371) |
| **Change in cash and cash equivalents in the year** | | 705,665 | 201,444 |
| Cash and cash equivalents brought forward | | 469,186 | 267,742 |
| **Cash and cash equivalents carried forward** | **20** | 1,174,851 | 469,186 |

# EITEM PUMP

## Ymlyniadau

| | |
|---|---|
| **NUS Affiliation Fee / Ffi Ymlyniad Undeb Myfyrwyr Cenedlaethol** | £ 39,476 |
| **BUCS Affiliation Fee / Ffi Ymlyniad Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain** | £ 16,368 |

- Mae llawer o glybiau chwaraeon a chymdeithasau cofrestredig yn ymlynu i amryw o gorfforaethau chwaraeon a diwylliannol llywodraethol cenedlaethol.

- Mae llawer o'n clybiau chwaraeon a'n cymdeithasau cofrestredig yn gysylltiedig ag amrywiaeth o gyrff llywodraethu chwaraeon a diwylliannol cenedlaethol.

# EITEM SAITH

## Eitemau a gyflwynwyd i Undeb y Myfyrwyr

i. Adolygiad o Femorandwm ac Erthyglau y Gymdeithas

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol – 22 Tachwedd 2018**

**Adolygiad Gweinyddol o Femorandwm ac Erthyglau Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd**

Cyflwyniad

Mae Memorandwm ac Erthyglau'r Undeb yn ddogfen sy'n ffurfio cyfansoddiad yr Undeb, yn diffinio cyfrifoldebau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr, y math o fusnes y caiff yr Undeb ei gynnal a'r ffordd y mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn atebol i'r myfyrwyr.

Cyd-destun yr Adolygiad a'r Broses

Mae'r Erthyglau'n nodi bod yn rhaid i'r Memorandwm a'r Erthyglau gael eu hadolygu bob pum mlynedd, a nawr yw'r amser. Mae'r ddogfen yn addas i'r pwrpas, ond argymhellir cyfres o ddiwygiadau gweinyddol, gyda'r bwriad o egluro unrhyw beth sy'n amwys, dileu unrhyw ddyblygu, a diweddaru terminoleg.

Mae'r broses ar gyfer cymeradwyo'r Memorandwm a'r Erthyglau ar gael yn Adran 9 a dyma grynodeb o'r broses:-

- Diwygiadau arfaethedig i gael eu cytuno gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr
- Diwygiadau arfaethedig i gael eu darparu i bob aelod sy'n Fyfyriwr – mae'r eitem hon yn gyfystyr a darparu
- Mae modd cyflwyno adolygiadau i'r cynigion trwy ddeiseb neu fwyafrif o'r Senedd Myfyrwyr
- Diwygiadau arfaethedig (neu gynigion wedi'u hadolygu) i gael eu cytuno mewn Cyfarfod o Aelodau sy'n Fyfyrwyr neu trwy refferendwm
- Diwygiadau i gael eu cytuno gan benderfyniad arbennig o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr
- Diwygiadau i gael eu cytuno gan Gyngor y Brifysgol

Argymhelliad

- Cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i'r Memorandwm a'r Erthyglau fel y nodir yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn, er mwyn eu cyflwyno ar gyfer eu cymeradwyo, fel yr amlinellir uchod.
- Mewn perthynas â'r Is-ddeddfau a'r atodiadau i'r Is-ddeddfau, awdurdodi'r Senedd Myfyrwyr i ystyried goblygiadau unrhyw un o'r diwygiadau uchod, ac i wneud newidiadau priodol fel y gwêl yn dda.
- Awdurdodi'r Prif Weithredwr i wneud diwygiadau drafftio eraill sydd eu hangen o ganlyniad i'r newidiadau uchod er mwyn sicrhau cywirdeb gramadegol a chyfeiriadol.

| | | |
|---|---|---|
| Fadhila Al Dhahouri | Daniel Palmer | |
| Llywydd | Prif Weithredwr | 12 Tachwedd 2018 |

| Rhif | Darpariaeth | Y geiriad presennol gan ddangos y newid arfaethedig. Llinell yn nodi dileu, testun trwm yn nodi ychwanegiad. | Y geiriad newydd arfaethedig | Y rhesymeg |
|---|---|---|---|---|
| 23.6 | Ymddiriedolwyr Sabothol – contract cyflogaeth | 23.6 Wrth ddechrau eu cyfnod gwasanaethu fel Ymddiriedolwr Sabothol, bydd yr Ymddiriedolwr Sabothol yn ymrwymo i gontract cyflogaeth ag Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd ~~neu Wasanaethau Undeb Caerdydd Cyf~~ am gyfnod a bennir gan yr Is-ddeddfau. | 23.6 Wrth ddechrau eu cyfnod gwasanaethu fel Ymddiriedolwr Sabothol, bydd yr Ymddiriedolwr Sabothol yn ymrwymo i gontract cyflogaeth ag Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd am gyfnod a bennir gan yr Is-ddeddfau. | Byddai'r diwygiad arfaethedig yn adlewyrchu'r trefniadau ymarferol. |
| 30.1/<br><br>30.2 | Llenwi swydd wag Ymddiriedolwr Sabothol | 30.1 Os bydd Ymddiriedolwr Sabothol yn ymddiswyddo, yn cael ei ddiarddel neu'n cael ei wahardd o'i swydd ar unrhyw adeg cyn **neu ar ôl** i'r Flwyddyn Academaidd ddechrau, yna bydd y swydd wag ar y Bwrdd Ymddiriedolwyr yn cael ei llenwi yn unol â'r Is-ddeddfau.<br><br>~~30.2 Os bydd Ymddiriedolwr Sabothol yn ymddiswyddo, yn cael ei ddiarddel neu'n cael ei wahardd o'i swydd ar ôl i'r Flwyddyn Academaidd ddechrau, yna bydd y swydd wag yn cael ei llenwi yn unol â'r Is-ddeddfau.~~ Mae'n bosib y bydd gofyn i unrhyw un a etholir o dan yr Erthygl hon gymryd cyfrifoldebau Ymddiriedolwr Sabothol. | 30.1 Os bydd Ymddiriedolwr Sabothol yn ymddiswyddo, yn cael ei ddiarddel neu'n cael ei wahardd o'i swydd cyn neu ar ôl i'r Flwyddyn Academaidd ddechrau, yna bydd y swydd wag ar y Bwrdd Ymddiriedolwyr yn cael ei llenwi yn unol â'r Is-ddeddfau. Mae'n bosib y bydd gofyn i unrhyw un a etholir o dan yr Erthygl hon gymryd cyfrifoldebau Ymddiriedolwr Sabothol. | Cyfuno darpariaethau presennol; dim newid effaith gwirioneddol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 33.2 | Sefydlu Pwyllgorau o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr | 33.2 Bydd yr Ymddiriedolwyr yn sefydlu<br><br>• **Tîm Arwain a ddisgrifir ymhellach yn Erthygl 35**<br>• **Pwyllgor gyda chyfrifoldeb penodol dros oruchwylio perfformiad cyllid a chynaliadwyedd yr Undeb**<br>• **Pwyllgorau a/neu Is-bwyllgorau eraill sydd eu hangen er mwyn gweithredu eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau, yn unol ag Erthyglau 32 a 33.1.**<br><br>~~y pwyllgorau canlynol (sydd ddim yn rhestr lawn)~~<br><br>~~33.2.1 Tîm Arwain (a ddisgrifir ymhellach yn Erthygl 35);~~<br><br>~~33.2.2 Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau~~<br><br>~~33.2.3 Pwyllgor Cyllid ac Archwilio~~<br><br>~~33.2.4 Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Chynnal a Chadw.~~ | 33.2 Bydd yr Ymddiriedolwyr yn sefydlu:-<br><br>• Tîm Arwain a ddisgrifir ymhellach yn Erthygl 35;<br>• Pwyllgor gyda chyfrifoldeb penodol dros oruchwylio perfformiad cyllid a chynaliadwyedd yr Undeb<br>• Pwyllgorau a/neu Is-bwyllgorau eraill sydd eu hangen er mwyn gweithredu eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau, yn unol ag Erthyglau 32 a 33.1.<br><br>(Os cânt eu cymeradwyo, bydd hyn hefyd yn golygu dileu 59.1.24, 59.1.27 a 59.1.36 sy'n diffinio'r Pwyllgorau rhagnodedig. Felly, fe argymhellir bod paragraff yn cael ei ychwanegu at 59.1 i roi diffiniad cyffredinol o Bwyllgor.) | Bydd dileu cylch gwaith a nifer rhagnodedig o Bwyllgorau yn galluogi i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr benderfynu pa strwythur Pwyllgor sydd orau ar gyfer cyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol, heb orfod diwygio'r Erthyglau ymhellach. Bydd y Tîm Arwain a'r Pwyllgor Cyllid yn cael eu cadw. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 53.3 | Cyhoeddi Cofnodion | 53.3 Bydd cofnodion y cyfarfodydd y cyfeirir atynt yn Erthygl 53.1 uchod yn agored fel arfer ~~a byddant ar gael i'r Aelodau sy'n Fyfyrwyr ar wefan yr Undeb~~, oni bai bod y cofnodion hynny'n ymwneud â materion sydd wedi'u neilltuo neu sy'n gyfrinachol, gan gynnwys, yn ddigyfyngiad, faterion disgyblaethol neu faterion yn ymwneud â staff.<br><br>**Os bydd y cofnodion yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol, yna bydd crynodeb o'r penderfyniadau a gymerwyd ar gael i Aelodau sy'n Fyfyrwyr ar wefan yr Undeb, ond ni fyddant yn cynnwys y wybodaeth gyfrinachol.**<br><br>Hefyd, bydd copïau o'r cofnodion yn cael eu cadw yn swyddfeydd yr Undeb. | 53.3 Bydd cofnodion y cyfarfodydd a gyfeirir atynt yn Erthygl 53.1 uchod yn agored fel arfer, oni bai bod y cofnodion hynny'n ymwneud â materion sydd wedi'u neilltuo neu sy'n gyfrinachol, gan gynnwys, yn ddigyfyngiad, faterion disgyblaethol neu faterion yn ymwneud â staff.<br><br>Os bydd y cofnodion yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol, yna bydd crynodeb o'r penderfyniadau a gymerwyd ar gael i Aelodau sy'n Fyfyrwyr ar wefan yr Undeb, ond ni fyddant yn cynnwys y wybodaeth gyfrinachol.<br><br>Hefyd, bydd copïau o'r cofnodion yn cael eu cadw yn swyddfeydd yr Undeb. | Wrth i natur busnes yr Undeb ddatblygu, prin yw'r adegau pryd na fydd cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau yn cynnwys gwybodaeth na ddylid ei chyhoeddi am resymau cyfrinachedd masnachol a/neu i osgoi rhyddhau gwybodaeth bersonol.<br><br>Mae'r diwygiad arfaethedig yn cadw'r rhagdybiaeth o fod agored ynghyd â'r darpariaethau sy'n caniatáu diogelu cyfrinachedd masnachol a phersonol, ond mae hefyd yn sicrhau cyhoeddi'r penderfyniadau a gymerwyd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 59.2 | Dehongliad – defnydd o dermau rhyweddol | Bydd geiriau sy'n dynodi'r unigol yn cynnwys y lluosog ac i'r gwrthwyneb; ~~a bydd geiriau sy'n dynodi'r gwrywaidd yn cynnwys y benywaidd ac i'r gwrthwyneb.~~<br><br>**Pan fydd y geiriau "nhw", "eu" ac "eu hunain" yn cael eu defnyddio i ddisgrifio unigolyn, byd y geiriau yn cyfeirio at yr unigolyn hwnnw, beth bynnag yw hunaniaeth yr unigolyn hwnnw o ran rhywedd.** | Bydd geiriau sy'n dynodi'r unigol yn cynnwys y lluosog ac i'r gwrthwyneb. Pan fydd y geiriau "nhw", "eu" ac "eu hunain" yn cael eu defnyddio i ddisgrifio unigolyn, bydd y geiriau yn cyfeirio at yr unigolyn hwnnw, beth bynnag yw hunaniaeth yr unigolyn hwnnw o ran rhywedd. | Mae'r Undeb yn cymryd camau i ddefnyddio iaith gynhwysol a niwtral a bydd y diwygiad arfaethedig yn sicrhau bod yr Erthyglau yn cyd-fynd â'r gwaith hynny. |

# ITEM WYTH

Mae'r cynigion canlynol a basiwyd yn y CCB wedi dod i ben ers y CCB diwethaf. Cyflwynir y rhain er gwybodaeth yn unig. Pasiwyd pob cynnig ar y 12fed Tachwedd 2015

Cymorth ar gyfer Myfyrwyr sy'n Rhieni
Hyfforddiant Iechyd Meddwl Gorfodol ar gyfer Tiwtoriaid Personol a Goruchwylwyr Ymchwil
Gwaredu Buddsoddiadau

**Ewch i'r adran hon o'r wefan i weld bob polisi - https://www.cardiffstudents.com/your-voice/policy/**

## Hyfforddiant iechyd meddwl gorfodol i diwtoriaid personol

**Noda'r CCB:**

1. Mae o leiaf un o bob pedwar o fyfyrwyr yn dioddef problem iechyd meddwl yn ystod eu hamser yn y coleg neu'r brifysgol.
2. Mae'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr wedi arwyddo addewid Amser i Newid, sy'n ddatganiad cyhoeddus bod mudiad neu sefydliad am fynd i'r afael â'r stigma a'r camwahaniaethu sy'n ymwneud ag iechyd meddwl.
3. Mae darn o waith ymchwil cynhwysfawr ar y gweill gan Is-lywydd y Myfyrwyr Ôl-raddedigion a'r Is-lywydd Lles yn ystod y flwyddyn academaidd 2015/2016 ar lesiant Israddedigion Ymchwil, ac i ddeall eu hanghenion yn well.
4. Y brif ffynhonnell o gefnogaeth ar gyfer myfyrwyr yw Tîm Cwnsela, Iechyd a Llesiant y Brifysgol, sy'n darparu amryw o wasanaethau, gan gynnwys cyfleoedd dyddiol i alw heibio yn ogystal ag apwyntiadau, gweithdai a sgyrsiau ar-lein.
5. Mae gwasanaethau dan arweiniad myfyrwyr megis Nawdd Nos Myfyrwyr a Meddyliau Myfyrwyr hefyd yn darparu cefnogaeth i fyfyrwyr.
6. Ceir Cod Ymddygiad ar gyfer Tiwtoriaid Personol sy'n perthyn i'r Brifysgol gyfan sy'n nodi: "Yn aml iawn, Tiwtoriaid Personol fydd y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer myfyrwyr sy'n cael anawsterau, a rhan bwysig o'r rôl yw gwrando a rhoi cyngor sensitif a phriodol, o fewn i ffiniau profiad ac arbenigedd y Tiwtor Personol"
7. Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer Tiwtoriaid Personol yn nodi mai rhan o rôl Uwch Diwtoriaid personol yw darparu cefnogaeth i diwtoriaid eraill mewn sefyllfaoedd anodd. Nhw yw'r cyswllt rhwng yr ysgol a Gwasanaethau Cymorth y Brifysgol yn ehangach.

8. Canfu ymchwil yr Uned Her Cydraddoldeb i Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch y *"siaradodd y myfyrwyr a ymatebodd yn bennaf ag academyddion, wedyn â staff yn y gwasanaeth cwnsela a'r gwasanaethau anabledd, ynglŷn â chael cefnogaeth"*
9. Roedd yr un darn o ymchwil hefyd yn argymell Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, ac mae'n rhoi enghreifftiau o wahanol ffyrdd mae gwahanol Brifysgolion yn cyflwyno hyn. Er enghraifft mae Coleg Imperial Llundain yn darparu hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl wedi'i achredu drwy un o'r rheolwyr cydraddoldeb ac amrywioldeb, ac mae sawl un arall wedi llunio dogfenau penodol i fynd i'r afael â'r mater hwn
10. Pennir o leiaf dau oruchwyliwr academaidd ar gyfer pob Myfyriwr Ôl-raddedig Ymchwil.
11. Pan gyfeiriwn at Diwtoriaid Personol, mae hyn hefyd yn cynnwys Tiwtoriaid Lleoliad a bennir ar gyfer y rheiny sy'n dysgu ar leoliad.

Creda'r CCB:

1. Mae cynnig cefnogaeth i'r myfyrwyr hynny sydd â phroblemau iechyd meddwl yn bwysig iawn, er mwyn sicrhau y gall pawb gyrraedd eu potensial.

2. Dylai'r rheiny sydd angen siarad am broblemau iechyd meddwl gael mynediad i gymorth gynted â phosib, heb yr oedi sy'n digwydd wrth gyfeirio pobl at sawl pwynt cyswllt.

3. Bydd darparu hyfforddiant iechyd meddwl i Diwtoriaid Personol/Goruchwylwyr Ymchwil hefyd yn cyfrannu ar ddileu'r stigma sy'n perthyn i broblemau iechyd meddwl drwy gynyddu ymwybyddiaeth ac annog deialog ynglŷn â'r pwnc.

4. Er mai prif swyddogaeth Tiwtor Personol yw cynnig cymorth academaidd, fel mae'r dystiolaeth uchod yn nodi, yn aml iawn nhw yw'r pwynt cyswllt cyntaf i fyfyrwyr ar unrhyw fater y tu hwnt i academia, ac o'r herwydd dylid eu hyfforddi i annog a chynorthwyo myfyrwyr i gael mynediad i help proffesiynol, yn ogystal â'u cyfeirio at y man cywir mewn ffordd briodol.

5. Dylai unrhyw hyfforddiant iechyd meddwl ar gyfer Tiwtoriaid Personol/Goruchwylwyr Ymchwil fod yn orfodol i bawb, er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y Brifysgol. Dylai hyn gynnwys rhaglenni ymchwil a'r rheiny a addysgir.

6. Os yw'r mwyafrif o staff dysgu academaidd yn derbyn hyfforddiant ar ymdrin â myfyrwyr sydd â phroblemau iechyd meddwl, mae'n debygol y gallai hyn leihau'r amser y mae'n ei gymryd i fyfyrwyr dderbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.

7. Y staff academaidd mwyaf priodol i ymgymryd â'r hyfforddiant yw Goruchwylwyr Ymchwil oherwydd y lefel uchel o oriau cyswllt â Myfyrwyr Ôl-raddedig.
8. Mae gofal bugeiliol yn rôl bwysig i Diwtoriaid Personol/Goruchwylwyr Ymchwil er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o broblemau a allai effeithio ar allu myfyriwr i weithio'n effeithiol, yn arbennig problemau iechyd meddwl.

**Penderfyna'r CCB:**

1. Dylid mandadu Is-lywydd y Myfyrwyr Ôl-raddedig a'r Is-lywydd Lles i lobïo'r Brifysgol parthed cynnal hyfforddiant iechyd meddwl gorfodol yn rheolaidd ar gyfer Tiwtoriaid Personol/Goruchwylwyr Ymchwil.
2. Dylid mandadu Is-lywydd y Myfyrwyr Ôl-raddedig a'r Is-lywydd Lles i lobïo dros hyfforddiant iechyd meddwl cyson ar draws pob rhaglen astudiaeth er mwyn sicrhau bod pob myfyriwr mewn cysylltiad ag aelod o'r staff academaidd sydd wedi derbyn yr hyfforddiant.
3. Dylid mandadu Is-lywydd y Myfyrwyr Ôl-raddedig a'r Is Lywydd Lles i lobïo'r Brifysgol parthed adolygu polisi perthnasol sy'n ymwneud â gofynion y rôl o Diwtoriaid Personol/Goruchwylwyr Ymchwil.
4. Sicrhau parhad prosiect partneriaeth y tiwtoriaid personol.

**Cynigydd:** Amr Alwishah

**Eilydd:** Orla Tarn

## CYNNIG UN

# Brwydro am gronfeydd: Parhau i gyllido mentrau sy'n mynd i'r afael â ymosodiadau rhywiol a thrais ar fyfyrwyr.

Mae'r CCB yn Nodi:

1. Mae 2018 wedi gweld sawl erthygl proffil uchel yn cael ei cyhoeddi yn ymwneud â ymosodiadau rhywiol a thrais yn y sector addysg uwch (1). Mae hwn hefyd yn bwnc sy'n cael ei adlewyrchu yn ryngwladol gyda'r mudiad #MeToo #FiHefyd ym mis Hydref 2017(2) a'r adroddiad sylwadau cuddiedig a gyhoeddwyd gan UCM ym mis Mai 2014(3).
2. Mae bron i dreuan o fyfyrwyr a graddedigion wedi dweud eu bod nhw wedi profi trais rhywiol ym Mhrifysgolion y DU. O'r rhain , dim ond 2% a deimlai fel y gallant hysbysu eu prifysgol (4) gyda peth data yn nodi fod myfyrwyr dwywaith yn fwy tebygol o brofi ymosodiad rhywiol na phrofi lladrad (5).
3. Mae llywodraeth y DU wedi gofyn i brifysgolion y DU i ffurfio ag arwain tasglu i ddatblygu cod ymarfer i helpu i fynd i'r afael â thrais rhywiol a aflonyddu yn erbyn ar gampysau. Ym mis Mawrth 2016 lansiodd Prifysgolion y DU tasglu i ddatblygu ymagwedd draws-sefydliadol ar drais yn erbyn merched. (6)
4. Nodwyd mewn adroddiad a ryddhawyd gan NISVIS gynydd ym mha mor gyffredin yw ymosodiadau rhywiol o fewn cymunedau LHDT+ gyda 44% o fenywod lesbiaidd wedi profi trais rhywiol, trais corfforol neu stelcio. (7)
5. Mae gan Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Birmingham brosiect ar y cyd 'Creu y Diwylliant' wedi ei gyllido gan HEFCE a ddechreuodd ym mis Hydref 2017.
6. Derbyniodd gwasanaeth datgelu ar-lein Prifysgol 502 datgeliad o drais a cham-drin ers i'r gwasanaeth ddechrau yn Hydref 2017. Roedd 23.1% o'r rhain o ganlyniad i gam-drin mewn perthnasau gyda ymosodiadau rhywiol yn 14.7% a thrais rhywiol at 9.8% (8).
7. Mae gan Brifysgol Caerdydd a UMPC 10 man Creu'r Diwylliant, wedi cymryd rhan mewn gorymdeithiau Hawlio'r nos yn ôl, a wedi darparu *** Hyfforddiant Act i 200 o staff rheng flaen, Gweithdai Gwyliwr sefydledig a Thîm Ymateb i Ddatgeliadau gyda 20 aelod o staff (8).
8. Yn y flwyddyn academaidd 2017/18 derbyniodd Prifysgol Caerdydd bloc grant o £40,922,433 gan HEFCW yn caniatáu addasiadau cyllid (9).

Cred y CCB:

1. Mae ymosodiadau rhywiol yn broblem fawr i'n myfyrwyr sydd rhaid ei ddelio â. Yr unig ateb yw derbyn y broblem yn llwyr a gweithredu cydwybodol parhaus. Mae creating the culture yn fenter ar y cyd gyda Phrifysgolion Caerdydd a Birmingham. Mae'n targedu tri maes allweddol o atal, ymyriad ag ymateb.
    a. Gweler atodiad 1 ar gyfer dadansoddiad llawn o'r prosiect Creu'r Diwylliant.
2. Mae'r ystadegau o'r System Datgelu Ar-lein yn ddechrau ysgogol, fodd bynnag mae tystiolaeth sylweddol i awgrymu fod yr adroddiadau hyn yn gyfran fechan o ddarlun ehangach (4). Rydym yn cydnabod fod hyn yn broblem ar draws y sector. Rydym eisiau dathlu fod Prifysgol Caerdydd wedi dechrau dod yn rhan o ddatrys y broblem. Mae'n lwyddiant fod pobl wedi dechrau rhoi gwybod ond mae'n rhaid i ni ostwng y rhwystrau sy'n wynebu myfyrwyr pan maent yn rhannu eu profiadau.
3. Mae effeithiau ymosodiadau Rhywiol a Thrais yn cael effaith sylweddol gydol oes ar ddioddefwyr. Felly, fel corff myfyrwyr rydym yn credu ei fod yn hanfodol fod Prifysgol Caerdydd yn parhau i gyllido'r prosiect

Creu'r Diwylliant. Rydym eisiau ac angen datrysiad tymor hir dros flynyddoedd yn hytrach na cyllido sy'n para prin 24 mis.

4. Yn ogystal â hyn, rydym yn galw ar Brifysgol Caerdydd i gryfhau gweithdrefnau a pholisïau diogelu i leihau niferoedd o fyfyrwyr ar thrais a chamdriniaeth myfyrwyr. Yn ogystal, mae aflonyddu staff ar fyfyrwyr yn digwydd ond ar hyn o bryd does dim datgeliadau wedi bod. Mae angen i ni gynnig polisi effeithiol a chadarn sy'n galluogi myfyrwyr i geisio cefnogaeth ac yn hysbysu am y digwyddiadau tra'n cynnal ymdeimlad o ddiogelwch.
5. Nid yw'r gweithredu ar gwynion presennol yn dilyn dull trawma wybodus, a all yn anffodus alluogi i'r rheini sydd wedi profi trais a chamdriniaeth i waethygu yn dilyn ymchwiliad. Mae angen am broses ar-wahân ar gyfer cwynion yn seiliedig ar drais gyda swyddogion ymchwil wedi'u hyfforddi sy'n cael eu penodi yn brydlon o'i gymharu a'r broses presennol a all gymryd misoedd. Mae angen hefyd i gael atebion mwy amrywiol i brofiadau o niwed mewn perthnasau rhwng aelodau o'n cymuned yn y Brifysgol; un sy'n galluogi i fyfyrwyr gael y cyfle i atgyweirio y niwed sydd wedi ei achosi. Gall hwn gael ei gyflawni drwy fabwysiadu ymagwedd adferol. Dyma'r ffordd orau i ddefnyddio'r adnoddau a'r staff wedi eu hyfforddi sydd gennym yn barod.
6. Mae Prifysgol Caerdydd yn derbyn cyfandaliad grant sylweddol gan yr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW) yn flynyddol. Mae'r grant hwn yn ffynhonnell enfawr o gyllideb y Brifysgol ac yn cael ei ddosrannu i adnoddau y mae angen ar Brifysgol Caerdydd i weithredu eu swyddogaeth. Roedd grant ar gyfer y flwyddyn academaidd hon yn fwy na £40 miliwn (9). Fel myfyrwyr mae angen i ni alw ar ein Prifysgol i fuddsoddi mwy o arian grant HEFCW i mewn i barhad y prosiect Creu'r Diwylliant. Rydym ni eisiau gwneud hwn yn flaenoriaeth addysg uwch Llywodraeth Cymru.

Cred y CCB ymhellach:

1. Mae'r diwylliant o ymosodiadau rhywiol a thrais ar gampysau prifysgolion yn ddifrifol ac yn broblem cyfoes sydd yn gyffredin ar draws y DU. Rydym hefyd yn credu fod y model gadarn "Challenge the culture' yn ddechrau ardderchog wrth fynd i'r afael â'r broblem ac felly y dylai gael ei adlewyrchu gan sefydliadau eraill ac fe fydd yn codi proffil y mater trychinebus hwn.
2. Mae yna epidemig o drais rhywiol a cham-drin o fewn perthnasau yn y gymuned LHDT+ sydd yn cael ei amlygu yn sylweddol pan cymharir gyda'r cymuned heterorywiol. Yn ogystal â hyn mae llawer o aelodau o'r gymuned LHDT+ yn oedi rhag cael cymorth gan yr heddlu a gwasanaethau iechyd oherwydd ofn o gael eu gwahaniaethu yn erbyn oherwydd eu hunaniaeth rhywiol. Yn ôl ymchwil ddiweddar mae 47% o ddynion deurywiol, 46% o fenywod deurywiol a 25% o ddynion hoyw wedi profi trais rhywiol ar ryw adeg yn eu bywydau (7). Yn ogystal a hyn, yn ôl stonewall, bydd 80% o'r Gymuned Draws yn profi o leiaf un achos o gam-drin o fewn perthynas (10).

Mae'r CCB yn penderfynu:

1. Swyddogion etholedig i lobio Prifysgol Caerdydd i gytuno i ymuno â chyfarfodydd datblygu misol gyda phrif rhanddeiliaid o UMPC a chyrff allanol i fonitro a pharhau i ddatblygu'r gwasanaeth hwn. Bydd hwn yn gynllun SMART (Penodol Mesuradwy Cyraeddadwy Realistig ag wedi'i Amseru).
2. Swyddogion Etholedig i lobio Prifysgol Caerdydd am linell amser o ddigwyddiadau. Erbyn Gorffennaf 2019 bydd y brifysgol yn rhan o gytundeb fuddsoddiad hirdymor ac yn cynhyrchu cynllun 5 mlynedd ar gweithredu pellach a chyllid ar gyfer y broblem.
3. Fel myfyrwyr rydym eisiau swyddogion etholedig gael Prifysgol Caerdydd i gytuno i werthusiad trylwyr o'r system cwynion presennol ag ymrwymo i addasu polisïau presennol i gynnwys system cwynion anffurfiol a dyrannu swyddog ymchwil o fewn 3 wythnos. Byddai hyn yn darparu y gofod ar gyfer cyfryngu adferol.

4. Swyddogion etholedig i weithio'n rhagweithiol gyda Prifysgol Caerdydd i wella darpariaeth ar gyfer ein myfyrwyr LHDT+ yn cyflwyno i wasanaethau campws gyda ymosodiadau rhywiol, ymyriadau a thrais domestig.
5. Rydym yn rhoi mandad i'r tîm swyddogion etholedig 2018/2019 i wneud cynnig i'r Senedd Myfyrwyr ac yna'r gynhadledd genedlaethol neu UCM NEC***. Bydd y cynnig yn anelu at gyflwyno templed a'r fynd i'r afael a ymosodiadau rhywiol i'n Prifysgolion a bydd yn gofyn i UCM i fabwysiadu'r templed hwn. Bydd hefyd yn gweithredu fel llestr i gael cyllid pellach a buddsoddiad yn yr adran hon.
6. Mae swyddogion etholedig i barhau deialog agored a lobio gweithredol Llywodraeth Cymru iddyn nhw i fabwysiadu ymagwedd debyg wrth fynd i'r afael a thrais a cham-drin rhywiol.

**Cynigydd**: Katey Beggan

**Eiliwyd gan**: Llywydd UMPC, Fadhila Al-Dhahouri

Cyfeiriadau


1. Reynolds, Emily. "Universities Are Home to a Rape Epidemic. Here's What They Can Do | Emily Reynolds." The Guardian, Guardian News and Media, 2 Mar. 2018, www.theguardian.com/commentisfree/2018/mar/02/universities-rape-epidemic-sexual-assault-students. [Gwelwyd: 01.10.2018].
2. You Are Not Alone. "Me Too." You Are Not Alone, metoomvmt.org/.[Gwelwyd: 01.10.2018].
3. Hidden Marks: a Study of Women Students' Experiences of Harassment, Stalking, Violence and Sexual Assault @ NUS Connect, www.nusconnect.org.uk/resources/hidden-marks-a-study-of-women-students-experiences-of-harassment-stalking-violence-and-sexual-assault. [Gwelwyd: 24.09.2018].
4. Newey, Sarah, a Hannah Price. "Revolt Sexual Assault -." Revolt Sexual Assault, revoltsexualassault.com/. [Gwelwyd: 01.10.2018].
5. "Campus Sexual Violence: Statistics | RAINN." RAINN | The Nation's Largest Anti-Sexual Violence Organization, www.rainn.org/statistics/campus-sexual-violence. [Gwelwyd: .01.10.2018].
6. "Taskforce to Examine Violence against Women, Harassment and Hate Crime Affecting University Students: Progress Report No. 1." Universities UK, www.universitiesuk.ac.uk/policy-and-analysis/reports/Pages/harassment-taskforce-report-1.aspx. [Gwelwyd: 01.10.2018].
7. "Violence Prevention." Centers for Disease Control and Prevention, Centers for Disease Control and Prevention, 1 May 2018, www.cdc.gov/violenceprevention/sexualviolence/index.html. [Gwelwyd: 01.10.2018].
8. Cardiff University, Student Counselling and Wellbeing Service, Creating the Culture project.
9. "HEFCW Annual Report and Accounts 2017-18." Annual Report, www.hefcw.ac.uk/publications/corporate_documents/annual_report.aspx. [Gwelwyd: 20.09.2018].
10. "Trais Domestig." Stonewall, 1 Awst. 2018, www.stonewall.org.uk/help-advice/criminal-law/domestic-violence. [Gwelwyd: 28.09.2018].


Atodiad 1

| | | |
|---|---|---|
| Addysg ac Ymwybyddiaeth | Gwell dealltwriaeth o drais, cam-drin a chaniatâd | Model hyfforddiant gyda strythur haen i holl Staff/Myfyrwyr |
| | | Ymgyrch Addysg a Ymwybyddiaeth ar y cyd gyda'r Undeb, i gael ei gefnogi gan fyfyrwyr |
| | Newid Diwylliant | Cynnwys gwefan fyw Mewnrwyd y Myfyrwyr/Gwefan yr Undeb |
| | | Briffio Staff gyda'r prif rhanddeiliaid |
| | | Gweithgareddau ymgysylltu myfyrwyr |
| | | Staff/Myfyrwyr E-ddysgu: uchafswm ymgysylltiad gan staff a myfyrwyr. |
| Ymyriad ac Ymateb | Opsiynau gwell ar gyfer datgelu achosion a chynnydd mewn ymyrraeth gan myfyrwyr a staff. | Hyfforddiant Gwyliwr: yn targedu 120 o arweinwyr myfyrwyr |
| | | Hyfforddiant R.E.Act: yn targedu 200 o staff rheng flaen |
| | | Teclyn Datgelu Canolog |
| | Cynyddu mynediad at gefnogaeth arbenigol. | DRT (cefnogaeth ar arweiniad ymarferol) |
| | | Opsiynau gwell ar gyfer Llety Argyfwng |
| Gweithio mewn Partneriaeth | Cydweithio diogel ac effeithiol | Cytundebau cydweithio (llwybrau, rhannu gwybodaeth, deallusrwydd anhysbys) |
| | | Cynllun ar y cyd gyda Prifysgol Birmingham i rannu/lansio'r ymgyrch |
| | Rhannu gwybodaeth i fyfyriwr sy'n wynebu risg | Gweithio cydweithredol gyda Undeb y Myfyrwyr (addysg a ymwybyddiaeth, hyfforddiant, ymyriad ac ymateb) |
| | | Cydweithio gyda Cefnogi a Lles Myfyrwyr (e.e llwybr i gwnsela) |
| | | Y broses o adolygu achosion, yn hyrwyddo arferion gorau |

CYNNIG DAU

# Ymgyrch Gwrth Slafdai

Noda'r CCB:

1. Mae'r diwydiant electroneg yn un o ffynonellau sylfaenol llafur slafdai.
2. Rhwng 2014 a 2016, gwariodd Prifysgol Caerdydd rhwng 2.5 a 3 miliwn o bunnoedd ar galedwedd bob blwyddyn.
3. Oherwydd natur y diwydiant electroneg, mae'n eithriadol o anodd i adnabod y ffynonellau anfoesegol.
4. Mae Electronics watch yn sefydliad nad yw'n seiliedig ar elw sy'n cynhyrchu deallusrwydd cyfreithadwy ar gadwyn cyflenwad a moesoldeb ffactrïoedd electronig. Mae nhw hefyd yn cynnig cefnogaeth i weithwyr y ffactrïoedd hyn.
5. Bydddai ffi tanysgrifiad i electronics watch yn costio pum mil o bunnoedd i Brifysgol Caerdydd bob blwyddyn. Mae'r swm hwn yn cyfateb i 0.16% o'r hyn a roddodd Prifysgol Caerdydd i'r diwydiant yn 2016.

Cred y CCB:

1. Mae gan yr Undeb gyfrifoldeb i annog ymddygiad moesegol a thryloyw gan y Brifysgol.
2. Y dylai myfyrwyr, gan ystyried fod technoleg yn ran sylfaenol o fywyd academaidd, dylent gael mynediad i galedwedd o ffynonellau moesegol.
3. Y dylai'r Brifysgol fel arweinydd deallusol ein cymdeithas, ymddwyn mewn undod gyda gweithwyr yn y diwylliant electroneg byd eang.
4. Dylai'r Brifysgol ymuno â'r sefydliadau a'r prifysgolion sydd wedi tanysgrifio i Electronics Watch.

Penderfyna'r CCB:

1. I gymeradwyo'r galw ar Brifysgol Caerdydd i danysgrifio i Electronics Watch

Cynigydd: Harvey Langley

Eiliwyd gan: Hannah Redfearn

CYNNIG TRI

## Gwneud Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn Gyflogwr Cyflog Byw

### Mae'r CCB yn Nodi:

1. Prifysgol Caerdydd yw'r unig Brifysgol yng Nghymru sy'n talu eu gweithwyr y Cyflog Byw Gwirioneddol. (1)
2. Fodd bynnag, nid yw Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn gyflogwr cyflog byw
3. Straen ariannol yw un o brif achosion o broblemau iechyd meddwl ymysg pobl ifanc, felly drwy dalu cyflog teg i'w gweithwyr, bydd yn adeiladu ar eu gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr, sydd eisoes yn wych, wrth fynd i'r afael a phroblemau iechyd meddwl ymysg myfyrwyr a phobl ifanc. (Citation needed)
4. Bod Prifysgol Caerdydd ac Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn cael eu hystyried fel yr un sefydliad gan nifer o fyfyrwyr.
5. Mae Undeb y Myfyrwyr Caerdydd yn parhau i fynd o nerth i nerth gyda eu poblogrwydd, yn parhau i wneud elw sylweddol wedi ei nosweithiau clwb clodfawr.

### Cred y CCB:

1. Mae'n synnwyr cyffredin i'r Undeb ddefnyddio'r cyflog byw, oherwydd bydd hyn yn caniatáu gostyngiad mewn straen ariannol ar eu gweithwyr ac yn ei dro, yn helpu mynd i'r afael â cynydd parhaol problemau iechyd meddwl yn y genhedlaeth ifanc.
2. Mae'r gost o fyw yng Nghaerdydd yn araf gynyddu, drwy dalu eu gweithwyr gyda'r cyflog byw bydd yr Undeb yn dangos eu bod yn cymryd costau byw myfyrwyr o ddifrif.
3. Drwy dalu gweithwyr yr Undeb y cyflog byw, byddant yn fwy cynhyrchiol, yn golygu y bydd yr Undeb yn weithle fwy hapus ac yn rhoi hwb i gyfraddau bodlonrwydd myfyrwyr.
4. Bydd Undeb cyflog byw yn atyniad mawr i ddarpar fyfyrwyr a fydd yn chwilio am waith tra'n astudio yn y Brifysgol.
5. Mae ond yn gwneud synnwyr i'r Undeb a'r Brifysgol i ddefnyddio polisi cyflog byw cyffredin, gan eu bod yn cael eu hystyried fel yr un sefydliad gan nifer o fyfyrwyr.

### Cred y CCB ymhellach:

1. Fod achredu cyflog byw mewn gwirionedd o fudd i fusnesau. Canfuwyd y sefydliad cyflog byw bod 93% o gyflogwyr Cyflog Byw yn dweud eu bod wedi elwa o gyflwyno'r cyflog byw gyda 86% yn dweud ei fod wedi gwella enw da eu busnes. (2)
2. I gyd fynd a Prifysgol Caerdydd yn ennill Prifysgol y Flwyddyn yng Nghymru 2018 (3), mae ganddo enw da amlwg, a thrwy wella enw da undeb y myfyrwyr hefyd, bydd graddfeydd boddhad myfyrwyr yng Nghaerdydd yn cynyddu, yn arwain at orffen yn uwch yn y tabl cynghrair.
3. Mae gan Undeb y Myfyrwyr enw da ardderchog yn barod ac fe gaiff ei gyfnerthu gan waith caled a gwasanaeth ardderchog eu gweithwyr, nawr mae'n amser, i ni fel y rhai sy'n elwa ar eu gwasanaethau, i roi yn ôl i'r gweithwyr gyda chyflog teg.

### Penderfyna'r CCB:

1. Fod Undeb y Myfyrwyr Caerdydd yn gwneud cais i'r Sefydliad Cyflog Byw am achrediad Cyflog Byw cyn gynted a gaiff y camau angenrheidiol eu cymryd.
2. Fod holl staff presennol a newydd a gaiff eu cyflogi gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn derbyn cyflog byw o leiaf £9.00 yr awr. (5)

3. Fod Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn dechrau cynllunio ar unwaith i gyflogi holl gontractwyr ar y safle gyda chyflog byw erbyn dechrau'r flwyddyn academaidd 2020/2021.

**Cynigydd**: Leo Holmes
**Eiliwyd gan**: Joshua Hurst


Cyfeiriadau:
(1)
https://www.cardiff.ac.uk/news/view/69124-a-living-wage-employer
(2)
https://www.livingwage.org.uk/good-for-business
(3)
https://www.cardiff.ac.uk/news/view/937922-welsh-university-of-the-year-2018
(4)
https://www.livingwage.org.uk/good-for-business
(5)
https://www.livingwage.org.uk/what-real-living-wage

CYNNIG PEDWAR

## Swyddog Iaith Gymraeg Llawn Amser

### Noda'r CCB

1. Ar hyn o bryd, nid oes gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd Swyddog Sabothol Iaith Gymraeg llawn amser.
2. Mae gan brifysgolion eraill yng Nghymru (Aberystwyth, Bangor ac Abertawe) Swyddog Sabothol Iaith Gymraeg llawn amser sy'n aelodau o dîm gweithredol pob undeb myfyrwyr.
3. Etholwyd swyddog presennol Ymgyrch yr Iaith Gymraeg ar fandad i sicrhau swyddog llawn amser yn Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd.
4. Etholwyd pwyllgor newydd UMCC (Undeb Myfyrwyr Cymraeg Caerdydd) hefyd ar fandad i sicrhau swyddog llawn amser yn Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd.
5. Dengys ffigurau'r Brifysgol fod bron 3,300 o fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith yng Nghaerdydd ar hyn o bryd.
6. Mae gan undebau myfyrwyr eraill yn y DU, fel Manceinion a Loughborough er enghraifft, fwy o swyddogion llawn amser i gynrychioli corff y myfyrwyr na'r hyn sydd gan Gaerdydd ar hyn o bryd.

### Creda'r CCB

1. Mae'n bryd dilyn esiampl prifysgolion eraill Cymru a chynrychioli myfyrwyr Cymraeg eu hiaith yn llawn drwy greu rôl lawn amser newydd.
2. Mae'n ariannol bosibl gan y byddai'n denu mwy o fyfyrwyr Cymraeg i brifddinas Cymru i astudio yn yr unig brifysgol yng Nghymru sy'n rhan o Grŵp Russell.
3. Dylid creu 8fed swyddog llawn amser er mwyn sicrhau bod modd i dîm y swyddogion sabothol sicrhau cynrychiolaeth i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith.
4. Bydd hyn yn golygu y bydd cynrychiolydd penodol yn gallu neilltuo ei amser yn llawn i sicrhau bod yr Undeb a'r Brifysgol yn cydymffurfio â safonau a hawliau'r Gymraeg i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a orfodir gan Gomisiynydd y Gymraeg.
5. Yn ogystal â gorfodi hawliau iaith, bydd modd i'r swyddog hwn hyrwyddo diwylliant Cymru i bob myfyriwr yn yr Undeb a'r Brifysgol.

### Penderfyna'r CCB

1. Diwygio Memorandwm ac Erthyglau Cydgysylltu Undeb y Myfyrwyr i greu wythfed rôl lawn amser.
2. Diwygio pwynt 22.1 o'r Memorandwm a'r Erthyglau i:
   "dim mwy na 8 o Ymddiriedolwyr Sabothol, wedi eu hethol yn unol â Chymal 23";
3. Diwygio pwynt 22.3 o'r Memorandwm a'r Erthyglau i:
   "Dim mwy na 3 ymddiriedolwr a enwebir gan y Brifysgol, wedi eu penodi yn unol â Chymal 25"; a
4. Diwygio pwynt 23.2 o'r Memorandwm a'r Erthyglau i:
   "Etholir hyd at 8 Ymddiriedolwr Sabothol yn unol ag Erthygl 23.1 i rolau a bennir yn yr Is-ddeddfau a byddant yn cynnwys y Llywydd. Bydd pob un o'r Ymddiriedolwyr Sabothol hyn yn dal rôl fel Ymddiriedolwr Sabothol tan iddo ef neu iddi hi beidio â bod yn Ymddiriedolwr Sabothol yn unol ag Erthyglau 27 neu 28. Ac eithrio

pan nodir fel arall, bydd "Ymddiriedolwyr Sabothol" yn yr Erthyglau hyn yn cyfeirio at unigolion sy'n gweithredu dim ond yn eu rolau fel Ymddiriedolwyr Sabothol."

5. Os caiff swydd lawn amser ei chreu ar gyfer Swyddog yr Iaith Gymraeg, daw'r swyddog hwn yn dod yn Llywydd UMCC hefyd.

**Cyflwynwyd gan**: Wiliam Rees, Llywydd UMCC
**Eiliwyd gan**: Jacob Morris, Swyddog Ymgyrch yr Iaith Gymraeg

CYNNIG PUMP

## Amddiffyn ein myfyrwyr Palesteinaidd ac Iddewig

Noda'r CCB hwn:

1. Mae cynnydd gwrth-Semitiaeth yn fygythiad sy'n peri pryder mawr. Yn Ffrainc, mae ymosodiadau gwrth-Semitig wedi cynyddu 69% yn ystod naw mis cyntaf 2018. [1]
2. Mae Amnest Rhyngwladol wedi cyhuddo Israel o dargedu sifiliaid a seilwaith sifiliaid yn fwriadol a chyflawni troseddau rhyfel yn ystod ei hymosodiad ar Gaza yn haf 2014 a laddodd fwy na 2,200 o Balesteiniaid, gan gynnwys 500 a mwy o blant [2].
3. Mae Israel yn parhau i roi gwarchae ar Gaza yn yr awyr, ar y tir ac ar y môr, gan gyfyngu'n sylweddol ar allu pobl a nwyddau sylfaenol i symud. Mae David Cameron wedi disgrifio Gaza fel "carchar awyr agored".
4. Mae dyfarniad gan y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol a llywodraeth y DU wedi condemnio Israel yn anghyfreithlon am adeiladu wal wahanu ac aneddiadau i Iddewon yn unig.
5. Disgrifiodd adroddiad gan Gyngor Ymchwil Gwyddorau Dynol De Affrica yn 2009 wahaniaethu systematig Israel yn erbyn Palesteiniaid yn y Banc Gorllewin a'u gorfodi i symud fel gwladychiaeth fel y'i diffinnir yn y gyfraith ryngwladol[3].
6. Yn 2014, dywedodd Richard Falk, adroddwr arbennig y Cenhedloedd Unedig ar hawliau dynol yn nhiriogaethau Palesteina, fod polisïau Israel yn cynnwys "nodweddion annerbyniol gwladychiaeth".[4]
7. Mae mwy na 50 o gyfreithiau yn gwahaniaethu yn erbyn y 1.5m o ddinasyddion Palesteina yn Israel sy'n cyfateb i 20% o boblogaeth Israel.[5] Mae hyd yn oed Adran Wladol yr Unol Daleithiau wedi beirniadu Israel yn gyson am ei system "wahaniaethu sefydliadol, cyfreithiol a chymdeithasol."[6]
8. Caiff mwy na 6 miliwn o ffoaduriaid Palesteinaidd eu gwrthod rhag dychwelyd i'w cartrefi fel cosb gan benderfyniad 194 y Cenhedloedd Unedig. 72
9. Mae system feddiannu a gwladychiaeth Israel yn effeithio ar hawl myfyrwyr Palesteinaidd i gael mynediad at addysg.[7]
10. Mae sefydliadau Palesteina yn dadlau mai dim ond Israel sy'n gallu cynnal ei system feddiannu a gwladychiaeth oherwydd cefnogaeth llywodraethau rhyngwladol a chyfranogaeth corfforaethau a sefydliadau ledled y byd.
11. Mae cwmnïau fel G4S, Veolia a HP yn darparu cefnogaeth deunydd i weithredoedd Israel sy'n mynd yn groes i gyfraith ryngwladol, gan gynnwys offer a gwasanaethau i aneddiadau anghyfreithlon Israel ac i'w milwyr.

---

[1] https://edition.cnn.com/2018/11/09/europe/france-anti-semitic-acts-increase-intl/index.html
[2] http://www.amnestyusa.org/sites/defa ult/files/mde 150322014.pdf
[3] http://www.hsrc.ac.za/en/media- briefs/democracy-goverance-and- service-delivery/report-israel- practicing-apartheid-in-palestinian- territories
[4] http://uk.reuters.com/article/2014/03/ 21/uk-palestinian-israel-unidUKBREA2K1JM20140321 [4] http://adalah.org/eng/Israeli- Discriminatory-Law-Database
[5] http://adalah.org/eng/Israeli- Discriminatory-Law-Database
[6] http://www.state.gov/j/drl/rls/hrrpt/2 010/nea/154463.htm
[7] http://right2edu.birzeit.edu

12. Yn 2005, galwodd 170 o gymdeithasau sifil Palesteinaidd am ymgyrch o foicotiau, dadfuddsoddi a sancsiynau (BDS) yn erbyn Israel fel modd o roi pwysau arni'n anfwriadol i gydymffurfio â chyfraith ryngwladol a rhoi diwedd ar weithredoedd Israel sy'n groes i gyfraith ryngwladol.
13. Mae Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM), Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT), Cyngres yr Undebau Llafur (TUC), Unite the Union, a'r Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU), mwy na 25 o undebau myfyrwyr y DU, yn ogystal â nifer o gyrff anllywodraethol eraill, undebau llafur, undebau myfyrwyr, pleidiau gwleidyddol a rhwydweithiau llawr gwlad ledled y byd wedi cymeradwyo tactegau BDS.
14. Mae prifysgolion Israel yn chwarae rhan allweddol mewn troseddau Israel yn erbyn pobl Palesteina. Gan eu bod nhw'n ymwneud yn agos â gwladwriaeth Israel a'i pheiriannau, mae sefydliadau academaidd Israel yn cymryd rhan uniongyrchol ym mholisïau'r apartheid, gwahaniaethu a gwladychiaeth - yn aml gan ddatblygu technoleg ac arfau i fyddin Israel eu defnyddio yn erbyn pobl Palesteina.
15. Cymharodd cyfarwyddwr cwmni milwrol mwyaf Israel, Elbit Systems, academia â "sefyll y tu ôl i'r diwydiant mawr hwn". Hefyd, mae gan brifysgolion Israel enw drwg am wahaniaethu myfyrwyr Palesteina'n systematig ac am sbarduno anghydfod gwleidyddol, ac mae llawer yn rhoi triniaeth ffafriol i bobl Israel sydd wedi gwasanaethu yng ngwasanaethau diogelwch Israel neu IDF.
16. Nid yw academia yn le niwtral, ac nid yw addysg uwch - mewn ymchwil ac ar arfer - erioed wedi bod yn anwleidyddol. Fe'i defnyddiwyd a'i defnyddir i gyfiawnhau imperialaeth, hiliaeth a gormes i atgyfnerthu naratifau gwladychol ac atgynhyrchu grym goruchafiaeth.

Creda'r CCB hwn:

1. Dylid caniatáu Palestiniaid eu hawliau sylfaenol, a dylid gwrthwynebu a chondemnio gweithredoedd Israel sy'n groes i gyfraith ryngwladol ac i hawliau dynol Palesteiniaid.
2. Dylai'r brifysgol weithredu i sicrhau nad yw'n dal cytundebau gyda chwmnïau sy'n helpu Israel i weithredu'n groes i gyfraith ryngwladol.

Penderfyna'r CCB hwn:

1. Gweithio gyda myfyrwyr i gyhoeddi adroddiad ynghylch cysylltiadau academaidd, corfforaethol ac economaidd rhwng undeb y myfyrwyr a'r brifysgol gyda chwmnïau, sefydliadau a chwmnïau o Israel sy'n rhan o weithredoedd Israel sy'n groes i gyfraith ryngwladol.
2. Sicrhau nad oes ganddynt unrhyw berthynas fasnachol â chwmnïau sy'n rhan o weithredoedd Israel sy'n groes i gyfraith ryngwladol ac nad yw'n buddsoddi ynddynt chwaith, gan gynnwys G4S, Veolia, HP a chwmnïau milwrol sy'n cyflenwi Israel fel BAE Systems a Raytheon.
3. Cefnogi myfyrwyr ac academyddion sy'n galw am foicotio sefydliadau academaidd Israel fel modd i'w dal i gyfrif am y cyfraniad maent yn ei wneud i weithredoedd Israel sy'n mynd yn groes i gyfraith ryngwladol ac i roi diwedd ar gymorth rhyngwladol i systemau gwladychol Israel.
4. Cymeradwyo polisi dim goddefgarwch i wrth-Semitiaeth. Gweler enghreifftiau o ymddygiad gwrth-Semitig isod.[8]
5. Condemnio'n gryf pob gweithred gwrth-Semitig, treisgar fel yr ymosodiadau diweddar yn Pennsylvania.

---

[8] https://www.thejc.com/comment/analysis/jeremy-corbyn-labour-definition-antisemitism-1.466626

6. Sicrhau nad yw Prifysgol Caerdydd ac Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn caniatáu i siaradwyr wrthod bodolaeth pobl Palesteina, yr holocost, ac unrhyw rethreg gwrth-Semitig a gwrth-Palesteinaidd arall yn gyhoeddus.

**Cyflwynwyd gan:** Amr Alwishah

**Eiliwyd gan:** Fadhila Al-Dhahouri

# EITEM NAW

Yfory (Dydd Gwener 23 Tachwedd) bydd Undeb y Myfyrwyr yn agor enwebiadau ar gyfer Etholiadau'r Gwanwyn. Bydd bob rôl swyddog sabothol a swyddog ymgyrch ar gyfer 2019/2020 yn cael eu penodi yn yr etholiadau hyn. Os hoffech gael mwy o wybodaeth cymrwch olwg ar cardiffstudents.com/elections neu e-bostiwch elections@caerdydd.ac.uk